Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

# Cynllun Strategol 2015-2018

# Cynllun Strategol 2015-2018

**Cynnwys**


Cyflwyniad: Cymorth i Ferched Cymru ........ 3

O Ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a phersbectif ........ 3

The problem: why our services are needed ........ 6

The challenges we face dros y 3 blynedd nesaf ........ **Error! Bookmark not defined.**

Ein blaenoriaethau dros y 3 blynedd nesaf ........ 11

Ein pobl, adnoddau ac aelodau ........ 16



Cymorth i Ferched Cymru
Pendragon House, Caxton Place, Pentwyn, Cardiff, CF23 8XE
T: 02920 541551 E: admin@welshwomensaid.org.uk
www.welshwomensaid.org.uk
@WelshWomensAid



Registered charity 1140962, Company limited by guarantee 07483469

## Cyflwyniad: Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Cynllun Strategol Cymorth i Ferched Cymru a'r blaenoriaethau rydym ni'n bwriadu eu cyflenwi dros y tair blynedd nesaf.

Cawsom ein sefydlu yn 1978, ac rydym ni'n cynrychioli, yn ymgyrchu dros ac yn cefnogi ffederasiwn o elusennau annibynnol lleol sy'n cyflenwi gwasanaethau arbenigol i atal cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yng Nghymru, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth drwy'r DU. Y gwasanaethau arbenigol hyn yw'n haelodaeth graidd, a rhyngddynt maen nhw'n darparu llochesi sy'n achub bywyd, gwaith estyn allan, ac eiriolaeth a chymorth cymunedol i oroeswyr trais a cham-drin - menywod, dynion a theuluoedd - ac yn cyflenwi gwaith ataliol arloesol mewn cymunedau lleol.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol fel Llinell Gymorth Byw Heb Ofn; y gwasanaethau eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam; a phrosiect ataliol *Mae Plant yn Bwysig* sy'n cynorthwyo ein haelodau i helpu plant a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Rydym ni wedi arwain y gwaith o ffurfio ymatebion ac ymarfer cymunedol cydlynol yng Nghymru, drwy ymgyrchu am newid a darparu cyngor, gwasanaethau ymgynghori, cymorth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth i oroeswyr, teuluoedd a chymunedau.

Fel ffederasiwn cenedlaethol, mae ein gwaith polisi, ymgyrchu, ymgynghori, hyfforddi ac eiriolaeth wedi'i seilio ym mhrofiadau bywyd y gwasanaethau arbenigol lleol a'r defnyddwyr gwasanaeth. Sail ein llwyddiant yw sicrhau bod profiadau ac anghenion goroeswyr yn ganolog i bopeth a wnawn.

## Ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a phersbectif

**Gweledigaeth**: Byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd o gam-drin domestig neu fygythiad o gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.

**Cenhadaeth**: Atal cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, sy'n ymateb i rywedd ac sy'n holistig.

**Gwerthoedd:** Mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith yn seiliedig ar gydraddoldeb rhyw, hawliau dynol a dim gwahaniaethu:

***Ffeministiaeth a chydraddoldeb***: Rydym ni'n gweithio gydag ethos ffeministaidd ac fel rhan o'r mudiad cyfiawnder cymdeithasol sy'n galw am ac yn mynd ati'n gadarnhaol i sicrhau hawliau menywod ar sail cydraddoldeb gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd.

***Grymuso***: Rydym ni'n bleidiol i ddull sy'n seiliedig ar hawliau a chreu cyd-destun lle gall menywod a phlant sicrhau ymreolaeth a grym, er mwyn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial.

***Cydweithio***: Rydym ni'n ymrwymo i gydweithio gyda goroeswyr, ein haelodau a phartneriaid allanol, gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd i wneud y gorau o bob cyfle i wneud cynnydd at gyflawni ein gweledigaeth.

***Unplygrwydd***: Lleisiau'r goroeswyr sy'n ganolog yn ein gwaith, ac rydym ni'n dal ein hunain yn atebol yn unigol ac ar y cyd am ein gweithredoedd gan weithredu yn unol â'n credoau a'n gwerthoedd ar bob achlysur.

***Rhagoriaeth***: Mae ein gwasanaethau'n esblygu mewn ymateb i anghenion sy'n codi, poblogaethau newidiol a ffyrdd newydd/diwygiedig o feddwl am drais yn erbyn menywod a phlant, ac rydym ni'n ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r gorau y gallwn ni ei gyflawni.

## Persbectif

**Cam-drin domestig** yw un unigolyn yn rheoli unigolyn arall mewn perthynas bersonol neu deuluol agos; gall y cam-drin fod yn rhywiol, corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol. Fel arfer mae'n batrwm o ymddygiad, a gall ddigwydd heb ystyriaeth i oed, cyfrifoldeb gofalwr, dosbarth, anabledd, hunaniaeth rhywedd, statws mewnfudo, ethnigrwydd, daearyddiaeth neu grefydd. Fodd bynnag mae rhywedd y dioddefwr a'r troseddwr yn dylanwadu ar y difrifoldeb, y risg a'r niwed a achosir.

Mae cam-drin domestig yn rhan o gontinwwm o **drais yn erbyn menywod a merched** a gyfeirir yn erbyn menyw, am ei bod yn fenyw, neu drais sy'n effeithio ar fenywod yn anghyfartal. Mae'r mathau hyn o droseddau trais yn erbyn menywod hefyd yn cynnwys treisio a thrais rhywiol; stelcio; priodas dan orfod; 'trais ar sail anrhydedd'; anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM); masnachu pobl a cham-fanteisio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw; ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle ac mewn bywyd cyhoeddus.

***Mae llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref) yn diffinio cam-drin domestig fel:***
*'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o drais, camdriniaeth neu ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sy'n bartneriaid mynwesol (neu wedi bod) neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag eu rhywedd a'u rhywioldeb. Mae'r cam-drin yn gallu bod o'r natur ganlynol, ymhlith eraill: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.*

*'Ymddygiad sy'n rheoli yw amrywiaeth o weithredoedd sydd â'r nod o wneud rhywun yn ddarostyngol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu rhag ffynonellau o gefnogaeth, defnyddio eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, sicrhau nad oes ganddyn nhw ffordd o wrthsefyll, dianc na bod yn annibynnol, a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.*

*'Ymddygiad sy'n gorfodi yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a chodi ofn, neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei defnyddio i niweidio, bygwth, neu ddychryn eu dioddefwr.*
Yng Nghymru, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnwys diffiniadau sy'n gymwys i bobl o bob oed, ac nid dros 16 yn unig:

- ***Diffinnir cam-drin domestig yn y Ddeddf fel:*** '*cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr; ystyr "cam-drin" yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.* Mae'r diffiniad hwn yn gymwys i bobl sydd yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd neu yn bartneriaid sifil i'w gilydd (neu wedi dyweddïo), sydd wedi byw gyda'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus, sy'n byw ar yr un aelwyd neu sy'n berthnasau i'w gilydd, sydd mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath, ac, sydd mewn perthynas â phlentyn, y naill a'r llall yn rhiant i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath.

- ***Diffinnir trais yn erbyn menywod a merched yn y Ddeddf fel***: *'trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol lle mae'r dioddefwr yn fenywaidd.'* Diffinnir trais ar sail rhywedd fel
  *(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;*
  *(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;*
  *(c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio).*

***Diffinnir 'trais yn erbyn menywod' gan y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Iechyd y Byd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llywodraeth y DU*** a llywodraethau eraill fel: *Trais a gyfeirir yn erbyn menyw, am ei bod yn fenyw, neu drais sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur*

*"… sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu seicolegol i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid ar fympwy, boed hynny'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu breifat. Deellir y bydd trais yn erbyn menywod yn cwmpasu, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:*

*(a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, gan gynnwys curo, cam-drin plant benywol yn y teulu yn rhywiol, trais yn ymwneud â gwaddol priodasol, treisio o fewn priodas, llurgunio organau rhywiol merched, ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais nad yw'n briodasol a thrais yn gysylltiedig â cham-fanteisio;*

*(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd o fewn y gymuned gyffredinol, gan gynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a bygwth yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgiadol ac mewn mannau eraill, y fasnach mewn menywod a phuteindra dan orfod;*

*(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir neu a gyd-oddefir gan y Wladwriaeth, lle bynnag y bo'n digwydd."*[1]

Rydym ni'n cadarnhau'r diffiniad hwn, sy'n gosod trais yn erbyn menywod a merched yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywedd, yn torri hawliau dynol ac yn ganlyniad i gamddefnydd o bŵer a rheolaeth.

Er bod y mathau hyn o drais a cham-drin yn cael eu profi'n bennaf gan fenywod a merched a'u cyflawni gan ddynion, gall dynion a bechgyn hefyd ddioddef y mathau hyn o drosedd. Mae ein persbectif felly'n lleoli cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod fel math o gamwahaniaethu systematig, gan ganiatáu ar gyfer cydnabod bod dynion a bechgyn hefyd yn gallu dioddef rhai o'r mathau hyn o drais a bod troseddwyr benywaidd i gael, wrth gyflenwi ymatebion. Rydym ni'n ymrwymo i gefnogi menywod, dynion, merched a bechgyn sy'n profi trais a cham-drin; herio pawb sy'n cyflawni trais ac yn cam-drin, a'i atal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Er nad yw pob trais yn erbyn menywod yn digwydd o fewn cyd-destun perthynas draddodiadol o bŵer, mae ymddygiad troseddwyr yn deillio o ymdeimlad o hawl a gefnogir gan agweddau rhywiaethol, hiliol, gwrth-anabledd, homoffobig ac agweddau, ymddygiad a systemau gwahaniaethol eraill sy'n cynnal ac yn atgynhyrchu anghydraddoldeb.

Mae'r persbectif sy'n llywio ein strategaeth, polisi a chyflenwi gwasanaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad rhywedd sy'n ein helpu i ddeall beth mae'r mathau hyn o droseddau'n ei olygu i fenywod a merched, dynion a bechgyn, gan gynnwys pam mai dynion yw'r mwyafrif o'r rheini sy'n cyflawni trais ac yn cam-drin; sut mae'r profiad o fod yn ddioddefwr/goroeswr neu'n dyst gwrywaidd yn gallu bod yn wahanol; yn ogystal â'r ffyrdd gorau i ddarparu cymorth a chefnogaeth.

Mae ein persbectif yn galw am ymateb ar sail rhywedd a gaiff ei lywio gan drawma, sy'n cael ei arwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfder ac sy'n galluogi goroeswyr i gyflawni annibyniaeth a rhyddid. Fe wyddom fod llawer o fenywod sydd wedi goroesi cam-drin hefyd yn gallu eu cael eu hunain mewn anghydfod â'r system cyfiawnder troseddol, o ganlyniad i'w herledigaeth a'u profiadau o anfantais ddifrifol a lluosog. Rhaid felly i ddulliau effeithiol i leihau ac atal trais a cham-drin hefyd ganolbwyntio ar atal neu ddargyfeirio menywod a merched rhag mynd i anghydfod â'r system cyfiawnder.

Bydd llawer o'r camau a gymerir fel rhan o'n hymateb i gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod hefyd yn gymwys i ddynion a bechgyn oherwydd dylai deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau ddarparu gwarchodaeth ac unioni i bob dioddefwr/goroeswr. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, gall fod angen gweithredu penodol, cymesur, er mwyn:

---

[1] Cenhedloedd Unedig: 'Datganiad ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod', Cynulliad Cyffredinol http://www.un.org/documents/ga/res/48/a48r104.htm

- Herio ymddygiad dynion sy'n defnyddio trais a cham-drin;
- Cefnogi dynion sy'n profi trais a cham-drin;
- Cefnogi bechgyn sy'n tystio neu'n profi trais neu gam-drin;
- Gweithio gyda dynion fel cynghreiriaid i herio trais a cham-drin a helpu i newid agweddau a gweithredoedd eu cymheiriaid.

## Y broblem: pam fod angen ein gwasanaethau

Mae trais yn erbyn menywod yn hynod o gyffredin, mae iddo effeithiau difäol ar fenywod a'u plant, teuluoedd a chymunedau, ac nid yw'n cael ei ddeall yn llawn fel problem gymdeithasol. Eto i gyd, yn fyd eang, mae'n broblem o faint pandemig: mae mwy o fenywod yn dioddef cael eu treisio neu geisio eu treisio nag sy'n cael strôc bob blwyddyn, ac mae'r lefel o gam-drin domestig yn y boblogaeth sawl gwaith yn fwy na diabetes[2]. Bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig mae 3 miliwn o fenywod yn profi treisio, trais domestig, priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau 'anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywaidd, stelcio, masnachu pobl a cham-fanteisio rhywiol.

Does dim arolwg cynhwysfawr wedi'i gynnal erioed ar draws pob math o drais yn erbyn menywod felly does dim meincnod cryf ar gyfer mesur cynnydd. Ceir profiadau y gwyddom lai amdanynt, gan gynnwys profiadau menywod hŷn, menywod anabl, menywod mewn llety dros dro a sefydliadau gan gynnwys carchar, a menywod sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r ymchwil sydd gennym yn dangos bod y mwyafrif llethol o drais yn erbyn menywod yn cael ei gyflawni gan ddynion maen nhw'n eu hadnabod (partneriaid, aelodau o'r teulu, cymdogion, ffrindiau neu gydweithwyr) ond fe'i cyflawnir hefyd gan ddieithriaid.

- Er bod **1.4 miliwn o fenywod** a **700,000 o ddynion (16-59 oed)** wedi adrodd iddyn nhw brofi achosion o gam-drin domestig yn 2013/14, mae tystiolaeth yn dangos mai menywod fel grŵp sy'n wynebu'r risg uchaf o gam-drin ailadroddus, cynyddol, sy'n fwyaf tebygol o brofi rheolaeth gymhellol, o fyw mewn ofn, a chael eu lladd drwy drais wrth law dynion[3].
- Canfu ymchwil yn y Deyrnas Unedig ar **drais rhwng partneriaid yn eu harddegau** fod 3 ym mhob 4 o ferched ac 1 ym mhob 10 bachgen wedi profi ymddygiad niweidiol mewn perthynas yn eu harddegau: mae merched yn adrodd am fwy o achosion o gam-drin, yn profi cam-drin mwy difrifol ac yn amlach ac yn dioddef mwy o effeithiau negyddol, o'u cymharu â bechgyn. O 88% o bobl ifanc mewn perthynas agos, roedd 25% o ferched a 18% o fechgyn wedi profi cam-drin corfforol, 75% o ferched a 14% o fechgyn wedi profi cam-drin emosiynol ac roedd 33% o ferched a 16% o fechgyn wedi profi cam-drin rhywiol.[4]
- Yn y Deyrnas Unedig ceir 2.6% o fynychder o **gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn**; fodd bynnag mae cam-drin rhyngbersonol yn uwch i fenywod rhwng 66-74 oed a menywod sydd wedi gwahanu/ysgaru; mae 2 ym mhob 5 o fenywod hŷn sy'n cael eu cam-drin hefyd yn ofalwyr.[5]
- Gall **menywod anabl,** beth bynnag eu hoed, rhywioldeb, ethnigrwydd neu ddosbarth, gael eu treisio ar gyfradd sydd o leiaf ddwywaith y gyfradd ar gyfer menywod nad ydyn nhw'n anabl.[6]

---

[2] Yr Adran Iechyd (2010) Tasglu ar agweddau iechyd trais yn erbyn menywod a phlant

[3] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: 'Chapter 4: Violent Crime and Sexual Offences – Intimate Personal Violence and Serious Sexual Assault', 12 Chwefror 2015, http://goo.gl/hJnvoK

[4] Barter, C, McCarry, M, Berridge, D & Evans, K 2009, 'Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships'. NSPCC/University of Bristol, http://goo.gl/A8oCY2

[5] O'Keeffe, M., Hills, A., Doyle, M., McCreadie, C., Scholes, S.,Constantine, R., Tinker, A., Manthorpe, J., Biggs, S., Erens, B., June 2007, 'UK Study of Abuse and Neglect of Older People, Prevalence Survey Report'. National Centre for Social Research/King's College Llundain, http:// goo.gl/jZKcHF

[6] Magowan P. 2004, 'The impact of disability on women's experiences of cam-drin domestig: an empirical study into disabled women's experiences of, and responses to cam-drin domestig'. ESRC – independent scholarship PhD research

- Ar gyfartaledd caiff 2 fenyw eu lladd bob wythnos yng Nghymru a Lloegr drwy gam-drin domestig. Yn 2013/14 lladdwyd 183 o fenywod ac o'r rhain roedd 84 o fenywod (46%) gan bartner neu gynbartner.[7] Yn 2014, amheuwyd bod **150 o fenywod yn y Deyrnas Unedig wedi'u lladd gan ddynion yr oedden nhw'n eu hadnabod** (1 fenyw yn cael ei lladd bob 2.43 dydd).[8]
- Mae 21.5% yn adrodd am gael eu **stelcio** ers iddyn nhw fod yn 16 oed.[9]
- Roedd 79% o'r achosion a gafodd eu trin gan yr Uned Priodas dan Orfod yn ddioddefwyr benywaidd; roedd 21% yn ddioddefwyr gwrywaidd. Amcangyfrifir fod hyd at 100 yn dioddef priodas dan orfod bob blwyddyn yng Nghymru.[10]
- Mae menywod bum gwaith yn fwy tebygol na dynion i ddioddef **ymosodiad rhywiol** difrifol; mae 3.7 miliwn o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef ymosodiad rhywiol ers iddyn nhw fod yn 16 ac ar draws y Deyrnas Unedig[11] ceir dros bum miliwn o fenywod sy'n oedolion a brofodd ryw fath o gam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod.[12] Mae tua 124,000 o fenywod, dynion, bechgyn a merched dros 16 oed yng Nghymru wedi dioddef trosedd rywiol.[13]
- Mae 137,000 o ferched a menywod yn byw gyda chanlyniadau **FGM** yn y Deyrnas Unedig ac mae 60,000 o ferched dan 15 mewn perygl o gael FGM yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifir fod 140 o ddioddefwyr FGM bob blwyddyn yng Nghymru.[14]
- Adroddodd 85 y cant o fenywod ym maes **puteindra** am gam-drin corfforol yn y teulu ac adroddodd 45 y cant am gam-drin rhywiol yn y teulu. Amcangyfrifir fod hyd at 5,000 o blant a phobl ifanc yn ymwneud â phuteindra ar unrhyw adeg yn y Deyrnas Unedig, ac o'r rhain, mae cymhareb benywaidd i wrywaidd o 4:1.[15]
- Mae 80% o'r 600,000 i 800,000 o bobl a gaiff eu **masnachu** bob blwyddyn yn fenywod a merched. Yn y Deyrnas Unedig, caiff rhwng 4,000 a 10,000 o fenywod eu masnachu i'r wlad bob blwyddyn;[16] ac mae 95% o'r menywod a gaiff eu masnachu i buteindra yn dioddef cam-drin corfforol a rhywiol, gyda'r un nifer yn profi symptomau trawma yn debyg i'r hyn y mae dioddefwyr arteithio yn eu dioddef. Fodd bynnag mae gwir gwmpas a natur y fasnach ryngwladol mewn pobl yn parhau'n anhysbys i raddau helaeth.[17]
- Dangosodd astudiaethau ar **aflonyddu rhywiol** fod un fenyw ym mhob dwy wedi profi cam-drin o'r fath; canfu arolygon Ewropeaidd ar drais yn erbyn menywod fod cyfraddau mynychder aflonyddu rhywiol bedair gwaith yn fwy nag ar gyfer cam-drin domestig.[18]
- Bydd y mwyafrif o **fenywod sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol** wedi profi cam-drin domestig, cam-fanteisio neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod, ac mae eu troseddau'n aml yn gysylltiedig â hyn. Mae'r menywod hyn hefyd yn profi anfantais ddifrifol a lluosog gan gynnwys afiechyd meddwl, defnydd problematig o sylweddau a digartrefedd, gan gael eu dal mewn cylch cythreulig o droseddau, trais a throseddu.[19]

---

[7] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: 'Chapter2 - Violent Crime and Sexual Offences – Homicide', 12 Chwefror 2015, http://goo.gl/0m15Mq
[8] Karen Ingala Smith: 'Counting Dead Women', 2014, http://kareningalasmith.com/counting-dead-women/2014-2/
[9] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol: 'Chapter 4 - Violent Crime and Sexual Offences – Intimate Personal Violence and Serious Sexual Assault', 12 Chwefror 2015, http://goo.gl/hJnvoK
[10] Swyddfa Gartref/Swyddfa Dramor a Chymanwlad: 'Forced Marriage Unit', 2014, http:// goo.gl/2qX9oR
[11] Walker, A., Kershaw, C. and Nicholas, S., 2007, 'Crime in England and Wales 2008/09'. bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2006, http://goo.gl/hbHdp5
[12] Seiliedig ar ddata: y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 2013, 'An Overview of Sexual Offending in England and Wales', https://goo.gl/8EDwtI
[13] Adroddiad yr is-grŵp Trais Rhywiol yn Erbyn Menywod, 2010, 'Responding to violence against menywod a phlant – the role of the NHS', http://goo.gl/0hePvM
[14] Macfarlane, A., Dorkenoo, E., 'Female Genital Mutilation in England and Wales: Updated statistical estimates of the numbers of affected women living in England and Wales and girls at risk: Interim report on provisional estimates', 2014, Llundain: City University
[15] Swyddfa Gartref: 'Paying the Price: a consultation paper on prostitution', Gorffennaf 2004, Llundain, http://goo.gl/Kva1yK
[16] Townsend, M., (2007) 'Sex slaves' win cash in landmark legal deal The Observer
Coy, M., Lovett,J. & Kelly,L. (2008), 'Realising Rights, Fulfilling obligations: a template for an integrated strategy on violence against women for the UK', http://goo.gl/SuhMjA
[17] Brighton&Hove:, 'Preventing Violence Against Women&Girls:An Integrated Strategy&Action Plan, 2012-2017, http://1url.cz/i8cZ
[18] Jaspart, M., Brown, E. and Condon, S. (2003) Les violences envers les Femmes en France: Une Enquête Nationale, Paris : La Documentation Française; Schroettle
Schroettle,M. and Muller, U. ( 2004 ) Health, Well-Being, and Personal Safety of Women in
Coy,M., Lovett,J. & Kelly,L. (2008) 'Realising Rights, Fulfilling obligations: a template for an integrated strategy on violence against women for the UK', http://goo.gl/SuhMjA
[19] Swyddfa Gartref: 'A report by Baroness Jean Corston of a Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System', 2007, http://goo.gl/LVzcBd

- **Nid yw carchar yn gweithio i fenywod.** Mae menywod a gaiff eu rhyddhau o'r ddalfa ar ôl dedfryd o lai na 12 mis yn fwy tebygol o aildroseddu na'r rhai a gafodd orchymyn cymunedol; yn 2008 roedd y gwahaniaeth mewn cyfraddau aildroseddu yn 8.3%. Caiff 51% o'r menywod sy'n gadael y carchar eu hail-ddedfrydu o fewn un flwyddyn - i'r rheini sydd â dedfryd o lai na 12 mis mae hyn yn cynyddu i 62%. I fenywod sydd wedi treulio dros 10 o ddedfrydau blaenorol yn y ddalfa mae'r gyfradd aildroseddu'n codi i 88%.[20]
- Mae **cost** darparu gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau iechyd, cyfreithiol a chymdeithasol) i ddioddefwyr a'r cynnyrch economaidd coll yn sgil menywod yn cael eu heffeithio gan drais yn biliynau o bunnoedd y flwyddyn. Un ffigur dangosol ar gyfer isafswm cost trais yn erbyn menywod a merched yw £37-£40 biliwn y flwyddyn.[21]

Mae gan gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod gost ddynol, gymdeithasol ac economaidd enfawr sy'n effeithio ar bob agwedd o fywyd ac ar bob gwasanaeth cyhoeddus. Caiff ei gyfreithloni a'i gymeradwyo gan yr anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion a chan agweddau at fenywod. Mae'r agweddau hyn yn eu tro'n atal unigolion, asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill rhag ymateb yn ddigonol na gwrando ar oroeswyr.

Mae'r canlynol ymhlith y rhwystrau at sicrhau newid:

- Casineb at wragedd drwy bob lefel o gymdeithas a phob system
- Diffyg dealltwriaeth gyffredin o'r broblem a'r datrysiadau
- Diffyg cytuno ar yr hyn sy'n ganlyniad da
- Mae'r prif fodel cyfredol yn canolbwyntio ar benderfyniadau y gellir eu hamddiffyn gan asiantaethau yn hytrach na chanlyniadau gorau / ar sail anghenion y goroeswyr
- Methiant systemig eang i ddynodi na diwallu anghenion na diogelu ac adeiladu ar adnoddau menywod eu hunain
- Nid yw asiantaethau statudol yn deall trais yn erbyn menywod / trais domestig yn enwedig rheolaeth gymhellol.
- Diffyg hyrwyddwyr proffil uchel ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched.

## Yr heriau rydym ni'n eu hwynebu dros y 3 blynedd nesaf

Yn debyg i sefydliadau eraill yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus mae ein gwasanaethau cenedlaethol a lleol yn wynebu dyfodol heriol a newidiol dros y blynyddoedd nesaf, o ganlyniad, ymhlith pethau eraill, i'r canlynol:

- Lleihad yng ngwariant y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus;
- Blaenoriaethau polisi cyhoeddus a newidiadau deddfwriaethol, yn sgil canlyniadau etholiad San Steffan yn 2015 ac etholiad arfaethedig Llywodraeth Cymru yn 2016;
- Effaith technoleg ar gyflenwi gwasanaeth;
- Newidiadau arfaethedig i strwythurau a ffiniau awdurdodau Cymru;
- Dulliau comisiynu, cyllido a gwerthuso newydd.

Yn ystod cyfnodau o newid yn yr hyn sydd wedi dod yn amgylchedd cynyddol gystadleuol, rydym ni'n parhau'n gadarn yn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth fel bod goroeswyr cam-drin ar draws Cymru'n gallu manteisio ar wasanaethau lleol, arbenigol, ansawdd uchel ac er mwyn i ni weithio at ddileu cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yn y tymor canolig i hir.

[20] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2012) 'Women In Prison', http://goo.gl/JEO4RK
[21] Llywodraeth EM: 'Call To End Violence Against Women and Girls'. 2010, https://goo.gl/srmgK5

Byddwn yn blaenoriaethu cymorth, arweinyddiaeth a chydweithio mwy effeithiol yn ystod y cyfnod hwn, ac yn darparu llais dylanwadol ar gyfer y trydydd sector cam-drin/trais yn erbyn menywod a goroeswyr yng Nghymru.

Rydym ni hefyd wedi adfyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'n profiadau hyd yma. Dros y degawd diwethaf, aed ati'n gynyddol i fabwysiadu model yn seiliedig ar risg ar gyfer ymatebion y gwasanaeth i drais a cham-drin domestig. Fodd bynnag, ceir hefyd llenyddiaeth gynyddol sy'n amlygu'r cyfyngiadau'r dull hwn a chydnabyddiaeth o broblemau yn ymatebion y gwasanaeth. Mae ymchwiliad yr HMIC yn 2014 i ymatebion yr heddlu i drais a cham-drin domestig wedi darparu tystiolaeth o broblemau yn ymateb y system cyfiawnder troseddol, a hefyd ceir arwyddion nad yw'r ymateb cyfredol yn lleihau'r gyfradd o drais domestig. Mae ffocws ar risg yn cyd-fynd â lleihad mewn ymatebion a arweinir gan anghenion, ac argyfwng cynyddol o anghenion nas diwallir. Yn ogystal, mae rhai ymatebion gwasanaeth wedi'u beirniadu am ymylu a dad-rymuso'r goroeswyr eu hunain.

Mewn partneriaeth gyda gwasanaethau lleol a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol o lawer o feysydd cysylltiedig, a'r goroeswyr eu hunain, rydym ni wedi adolygu dulliau cyfredol o fynd i'r afael â thrais a cham-drin domestig a'r systemau sy'n weithredol. Yn ystod y broses hon mae nifer o gwestiynau allweddol wedi codi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- A yw'r dull cyfredol yn gwneud menywod a phlant yn fwy diogel mewn modd parhaol?
- Sut gallwn ni gefnogi menywod a phlant i fyw bywydau'n rhydd o drais a cham-drin?
- Pa newidiadau y dylid eu gwneud i wella'r sefyllfa gyfredol i gyflenwi gwell canlyniadau tymor hirach a thrwy hynny leihau'r niferoedd o fenywod a phlant sy'n ddioddefwyr?
- Sut gellir gwneud unrhyw newidiadau yn erbyn cefnlen barhaus o lymder?
- Oes ffordd well o gyfeirio'r adnoddau sydd ar gael?
- Beth fedrwn ni ei ddysgu o feysydd polisi cymdeithasol eraill?

Yng Nghymru, bydd y cyd-destun rydym ni'n cyflenwi ein gwasanaethau ynddo hefyd yn newid dros y tair blynedd nesaf. Ym mis Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i rym. Dyma'r ddeddf gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig i ddarparu ffocws strategol ar gyfer gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail rhywedd. Nod y Ddeddf a'r canllawiau statudol atodedig yw sicrhau ystyriaeth gyson o drefniadau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth gyflenwi gwasanaethau. Prif ddarpariaethau'r ddeddf yw:

- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Strategaeth Genedlaethol â'r nod o ddileu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i weithio ar y cyd i baratoi a chyhoeddi strategaethau â'r nod o ddileu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- darpariaeth i ganolbwyntio ar drais yn erbyn menywod gan sicrhau bod y Ddeddf yn estyn at bob dioddefwr benywaidd a gwrywaidd sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol ar sut y gallant gyfrannu at ddileu trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys mewn polisïau'r gweithle, comisiynu gwasanaethau a chydweithio amlasiantaethol;
- pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd at gyflawni dibenion y Ddeddf.

Byddwn yn cefnogi gweithrediad y Ddeddf a rhaglen ategol Llywodraeth Cymru o fesurau addysg, ynghyd â chanllawiau statudol eraill, ac yn sicrhau bod buddiannau a phrofiadau ein gwasanaethau i aelodau a goroeswyr yn parhau'n ganolog i unrhyw ddull o wella ymarfer ac atal trais a cham-drin.

Rydym yn credu y byddai ymateb mwy effeithiol i drais a cham-drin domestig, gan gynnwys ymyrryd cynharach a mwy priodol ar gyfer datgelu, yn cael effaith gadarnhaol ar draws polisi a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal ag ymatebion, mae angen sicrhau ffyrdd mwy effeithiol i atal trais a cham-drin domestig a diogelu plant a theuluoedd rhag ei effeithiau tymor hir a hefyd gosod ymyriadau gyda throseddwyr yn flaenoriaeth o fewn dulliau ataliol sy'n cynnwys y teulu a'r gymuned gyfan. Rydym ni am greu newid sy'n para, drwy alw am fodel o ymyrryd sy'n seiliedig ar gryfderau ac a arweinir gan anghenion ac sy'n cefnogi goroeswyr a'u plant i adeiladu gwydnwch, ac sy'n arwain at annibyniaeth a rhyddid.

## Ein blaenoriaethau dros y 3 blynedd nesaf

Mae ein strategaeth a'n blaenoriaethau yn benllanw degawdau o ddysgu gan wasanaethau sy'n cyflenwi cymorth ymarferol, emosiynol a therapiwtig i fenywod a phlant a gwaith gydag amrywiaeth o randdeiliaid.

Mae angen i'n gwaith ganolbwyntio ar gefnogi ein haelod-wasanaethau ac ar y meysydd hynny lle gallwn wneud y cyfraniad gorau i ddileu trais a cham-drin. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr fod goroeswyr yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw, drwy ddarparu hyfforddiant, arweiniad a phecynnau cymorth, sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu cymorth effeithiol a phriodol i oroeswyr trais a cham-drin; a defnyddio ein dylanwad a'n rhwydweithiau i sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed ac yn parhau'n ganolog i unrhyw ymyriadau sy'n bodoli neu sy'n datblygu. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithio at ddyfodol lle nad yw bywydau menywod a phlant yn cael eu difetha gan drais a cham-drin, drwy wella gallu cymunedau a gweithwyr proffesiynol i ddileu trais a cham-drin; gweithio gyda phlant a phobl ifanc i atal trais a cham-drin a hyrwyddo gwaith arloesol ar atal.

Byddwn yn parhau i ymgyrchu dros osod lleisiau a phrofiadau goroeswyr wrth galon ymarfer ac ymatebion polisi i gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Goroeswyr yw'r arbenigwyr. Mae cydnabod y defnyddiwr gwasanaeth fel arbenigwr yn ddull sydd hefyd yn cael ei fabwysiadu gan lawer yn y sector iechyd a chaiff ei lywio gan ymchwil a phrofiad helaeth o gyflenwi gwasanaethau mewn meysydd polisi eraill, fel y gwasanaethau sydd wedi'u datblygu i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol drwy brosiectau cymunedol i fenywod a chanolfannau menywod. Mae dulliau sy'n gosod y fenyw'n ganolog yn bwysig ar gyfer polisi a chynlluniau gwasanaeth sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau bywyd i fenywod sydd ag anfanteision lluosog, boed y rheini'n ymwneud â chyfiawnder troseddol, iechyd, tai a digartrefedd, camddefnyddio neu gam-drin sylweddau.
Bydd ein meysydd blaenoriaeth o ran gwaith dros y tair blynedd nesaf yn canolbwyntio ar y tri maes canlynol:

### Atal:

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth; yn hybu ymarfer gorau i gyflawni atal drwy addysg, cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ac mewn cymunedau; yn ymgyrchu dros gydraddoldeb rhywedd a herio agweddau i leihau goddefgarwch cymdeithasol o gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Rydym ni'n ganolfan achrededig *Agored Cymru* a byddwn yn cyflenwi hyfforddiant arbenigol i amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ar draws Cymru er mwyn iddyn nhw gefnogi a diwallu anghenion goroeswyr yn well a lleihau'r risg y mae troseddwyr yn ei beri.

### Darparu, diogelu a chefnogi:

Byddwn yn cefnogi gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru i adeiladu eu capasiti, cyflenwi cymorth o ansawdd uchel a chadw'n gyfredol â datblygiadau polisi ac ymarfer. Byddwn hefyd yn cynrychioli ac yn darparu llais i wasanaethau'n lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac ar lefel y Deyrnas Unedig a rhyngwladol. Byddwn yn darparu mynediad cenedlaethol at gymorth arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth drwy ein llinell gymorth genedlaethol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn rheoli a chydlynu system Cymru o fynediad at ddarpariaeth lloches argyfwng (fel rhan o system Llochesi Ar-lein y Deyrnas Unedig).

Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu lloches, eiriolaeth a chymorth i fenywod a phlant ym Mae Colwyn a Wrecsam. Nid yw'n fwriad gennym i gymryd mwy o wasanaethau dan reolaeth uniongyrchol, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein ffederasiwn o wasanaethau arbenigol ar draws Cymru'n cael cefnogaeth i gyflenwi gwasanaethau annibynnol, ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion ac sy'n ymateb i rywedd.

### Gwaith partneriaeth:

Yn genedlaethol ac yn lleol drwy waith yr aelod wasanaethau, byddwn yn cynnwys goroeswyr yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau, a byddwn yn cefnogi menywod sydd wedi profid cam-drin i ddod yn rhan o'n gwaith. Drwy wneud hyn, byddwn yn barhaus yn gwella ein dealltwriaeth o brofiadau goroeswyr a'r ffordd orau i ddiwallu eu hanghenion.

Byddwn yn cyflenwi gwasanaethau ymgynghori, cyngor, arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant i hyrwyddo ymatebion cymunedol cydlynol i drais a cham-drin, gan gynnwys cefnogi a chynghori comisiynwyr lle bo angen, ar fodelau gwasanaeth effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni newid sy'n para. Byddwn yn gweithio ar draws Cymru gyda gwasanaethau arbenigol, llywodraeth genedlaethol a lleol, iechyd, tai, addysg, cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau cynghori a chymorth cymunedol, i wneud yn siŵr eu bod yn cwrdd â'r anghenion, yn gwella diogelwch a gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod ym mhopeth a wnânt.

## Hyrwyddo 'Newid sy'n Para': Trawsnewid ymatebion i drais yn erbyn menywod

Mae ein degawdau o brofiad a thystiolaeth ymchwil wedi'n dysgu ni bod gwasanaethau a phartneriaethau'n brwydro i helpu goroeswyr sy'n profi anfanteision lluosog; bod ffocws ar risg uchel ac ar gam-drin domestig yn golygu bod anghenion yn aml yn cael eu hanwybyddu a bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi mewn silos; a bod diffyg gwasanaethau sy'n ymateb i rywedd yn arwain at ymarfer nad yw'n ddefnyddiol nac yn ddiogel.

Er mwyn creu ***newid sy'n para*** mae angen i ni greu dull o weithredu a arweinir gan anghenion, i'r teulu cyfan a'r gymuned er mwyn atal trais yn erbyn menywod, ac un sy'n gosod goroeswyr, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau arbenigol holistig yn ganolog mewn unrhyw ymateb. Dylai'r dull hwn lywio ymateb y wladwriaeth, gan adeiladu ar adnoddau goroeswyr a darparu ar gyfer gwydnwch tymor hir drwy gynnig y daith fyrraf bosibl at ddiogelwch, annibyniaeth a rhyddid.

I atal trais yn erbyn menywod mae angen ffordd well: ***drwy osod anghenion goroeswyr yng nghanol ein dull gweithredu gallwn ddarparu cymorth yn gynt a sicrhau bod ei effaith yn para.***

- **Gwrando – gwrando ar oroeswyr a gosod eu hanghenion yn ganolog**
- **Holi a gweithredu – holi'r cwestiynau cywir yn ddiogel a gweithredu'n briodol**
- **Cymorth arbenigol – cyfeirio at eich gwasanaeth arbenigol lleol**
- **Cymorth – darparu arweiniad, gwybodaeth a hyfforddiant clir**
- **Annibyniaeth a rhyddid - cydweithio i sicrhau dyfodol annibynnol i oroeswyr**

Mae egwyddorion ar gyfer cyflawni newid sy'n para'n cynnwys deall y llwybrau gwahanol mae goroeswyr yn eu cymryd at ryddid a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant, ymateb yn holistig i'r holl oroeswyr, sicrhau gwell ffocws ar droseddwyr, cynyddu adnoddau i oroeswyr a'r gymuned, canolbwyntio ar ganlyniadau tymor hir a blaenoriaethu atal pob trais a cham-drin. Rydym yn cydnabod bod rhaid i'r model hwn ymateb yn briodol i bawb sy'n dioddef trais a cham-drin domestig, beth bynnag eu rhyw, gan sicrhau bod natur ac effaith rhywedd o ran y cyflawnwr a'r dioddefwr yn cael eu deall a'u trin.

## Y canlyniadau rydym ni am eu cyflawni: ein damcaniaeth newid

**EFFAITH UWCH**

**Menywod a phlant yn cyflawni annibyniaeth a rhyddid, yn ddiogel i fwynhau eu hawliau dynol, ac yn gallu ffynnu a chyfranogi'n weithredol yn y gymdeithas**

**EFFAITH**

**Menywod a phlant yn byw'n rhydd o gam-drin domestig gwirioneddol neu fygythiad ohono a phob math o drais yn erbyn menywod**

**CANLYNIADAU**

**Caiff cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod ei ddeall, ei herio a'i atal;**

**Cynnydd yng ngallu menywod a phlant i gael perthynas iach**

**Cryfhau gwasanaethau arbenigol a'u cynorthwyo i ddiwallu anghenion amrywiol;**

**Cymorth effeithiol ar gael yn gynnar i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant goroeswyr**

**Ymateb mwy effeithiol i gam-drin domestig/trais yn erbyn menywod gan asiantaethau a chymunedau;**

**Llywodraeth a gwasanaethau'n fwy atebol i fenywod a phlant**

**Menywod a phlant yn byw'n rhydd o gam-drin domestig gwirioneddol neu fygythiad ohono a phob math o drais yn erbyn menywod**

Caiff cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod ei ddeall, ei herio a'i atal;
Cynnydd yng ngallu menywod a phlant i gael perthynas iach

Cryfhau gwasanaethau arbenigol a'u cynorthwyo i ddiwallu anghenion amrywiol;
Cymorth effeithiol ar gael yn gynnar i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant goroeswyr

Ymateb mwy effeithiol i gam-drin domestig/trais yn erbyn menywod gan asiantaethau a chymunedau;
Llywodraeth a gwasanaethau'n fwy atebol i fenywod a phlant

3 ymgyrch blynyddol

Unigolyn wedi'i hyfforddi mewn 'holi a gweithredu' i gyflwyno cymorth/grwpiau a gwaith atal

Gwasanaethau arbenigol â:
- Nod Ansawdd WWA;
- Dull dan arweiniad anghenion;
- Tystiolaeth o effaith;
- Cyllid tymor hirach

Cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol WA yn well a mwy effeithiol

Deddfwriaeth a gweithredu cymunedol i atal trais yn erbyn menywod/cam-drin domestig a diogelu dioddefwyr

Cynorthwyo a grymuso goreswyr i siarad a chael llais

Cyfryngau, ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgyrchu i:
- Godi ymwybyddiaeth
- Newid agweddau
- Gwella'r gyfraith, polisi, canllawiau

Cyflenwi rhaglenni *Mae Plant yn Bwysig* – STAR gan wasanaethau arbenigol ac asiantaethau partner

Sefydlu:
- Fframwaith asesu QM
- Set data genedlaethol
- Templedi polisi ac arweiniad

Cyflenwi cynaliadwy:
- Llinell gymorth Byw heb Ofn
- Cam-drin domestig Colwyn
- cam-drin domestig Wrecsam

Dylanwadu polisi ac arfer:
- strategaeth ac arweiniad trais yn erbyn menywod
- Gwas. Cymd. a deddf cenedlaethau'r dyfodol
- Cynnwys rheolaeth gymhellol

Fframwaith cyfranogiad goroeswyr:
- Paneli goroeswyr
- SEEDS
- Arweiniad addysg gan bobl ifanc

Cefnogi gwaith atal trais yn erbyn menywod, rhaglen waith y grŵp gweithredu a chreu cyswllt ag ymgyrchwyr ar lawr gwlad

Gwasanaeth hyfforddi WWA ar gam-drin domestig/trais yn erbyn menywod ar y cyd ag aelodau

Adeiladu gallu ac arbenigedd aelodau i sefydlu fframwaith cymorth cryf o aelodau

Gwell cynlluniau ac ymarfer comisiynu strategol

Datblygu/peilota model Newid sy'n Para ar gyfer fframwaith trais yn erbyn menywod framework, gwaith partneriaeth

Cynnwys goroeswyr mewn:
- Polisi
- Datblygu
- Cynrychiolaeth
- Ymgynghori

**MEWNBWN/ADNODDAU**

Datblygu staff
Cynyddu'r sail codi arian a chefnogwyr
Cryfhau gwasanaethau a thystiolaeth
Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

**STRATEGAETHAU**

Dysgu a datblygu, rheoli ansawdd
Dylanwadu ar bolisi, trefnu ar lawr gwlad a chlymbleidio
Codi arian, cynyddu aelodaeth a phartneriaethau
Adeiladu capasiti gwasanaethau, Hyfforddi, Cyfranogiad goroeswyr
Cyfathrebu a marchnata, PR, Ymchwil/gwerthuso

## ADNODDAU'R SEFYDLIAD (capasiti)

*Amgylchedd Allanol*

*Hyblygrwydd, Ymateb, Rhagweithiol*

**Llywodraethu ac Arwain**

**Rheoli**

**Cyflenwi llinell flaen, capasiti technegol**

## MEWNBWN/ADNODDAU

**Datblygu staff:**
- profiad/gwybodaeth
- sgiliau/galluoedd craidd
- amrywiaeth a chynhwysiad
- dysgu a datblygu

**Cynyddu'r sail codi arian a chefnogwyr:**
- ymddiriedolaethau a sefydliadau
- cyllidwyr statudol
- cymynroddion
- partneriaethau corfforaethol
- aelodau/cefnogwyr

**Cryfhau gwasanaethau a thystiolaeth:**
- safonau/modelau gwasanaeth
- hyfforddi/adeiladu capasiti
- cynnwys goroeswyr
- atal sylfaenol

**Gwella effeithiolrwydd ac effeithonrwydd:**
- gwasanaethau cymorth busnes
- systemau TG a data
- gwefan
- cyfathrebu

## STRATEGAETHAU A NODAU MEWNOL

**Dysgu a datblygu; Rheoli ansawdd**
- **Gwella effeithiolrwydd ac effeithonrwydd WWA**

**Dylanwadu polisi; Clymbleidio ar lawr gwlad**
- **Arwain Cymru ar bolisi/ymgyrchoedd drais domestig/trais yn erbyn menywod ar sail tystiolaeth**

**Codi arian; Cynyddu aelodaeth Datblygu partneriaethau newydd**
- **Cynyddu capasiti a chefnogwyr sefydliadol**

**Adeiladu capasiti i wasanaethau arbenigol gael eu harwain gan anghenion; Hyfforddiant; Cyfranogiad goroes**
- **Gwell cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol / arbenigol a gwasanaethau eraill**

**Cyfathrebu a marchnata; Cyfryngau a PR; Ymchwil a gwerthuso**
- **Cryfhau brand a chyfathrebu WWA**

## CANLYNIADAU

- **Caiff cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod ei ddeall, ei herio a'i atal**
- **Cynnydd yng ngallu menywod a phlant i gael perthynas iach**
- **Cryfhau gwasanaethau arbenigol a'u cynorthwyo i ddiwallu anghenion amrywiol**
- **Cymorth effeithiol ar gael yn gynnar i gynyddu diogelwch, iechyd a llesiant**
- **Ymateb mwy effeithiol i gam-drin domestig/trais yn erbyn menywod gan asiantaethau a chymunedau**
- **Llywodraeth a gwasanaethau'n fwy atebol i fenywod a phlant**

## EFFAITH

Newid agwedd at ymdrin â thrais domestig/yn erbyn menywod yn adlewyrchu gwelliant cadarnhaol i fywydau menywod a'u plant

**Menywod a phlant yn byw'n rhydd o gam-drin domestig a phob math o drais gwirioneddol yn erbyn menywod neu fygythiad ohono**

*Diwylliant y Sefydliad:* Safonau ansawdd, goroeswyr/aelodau'n ganolog, gwaith tîm ac agwedd gyffredin, dathlu llwyddiant, goddef risg

## Ein pobl, adnoddau ac aelodau

Mae'r Cynllun Strategol wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â staff, rheolwyr, aelodau, defnyddwyr gwasanaeth a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Fe'i datblygwyd gydag ystyriaeth i amcanion elusennol Cymorth i Ferched Cymru, gofynion cyllidwyr a blaenoriaethau a gweithgareddau a ddynodwyd ar gyfer cyfeiriad y dyfodol, gan yr aelod-wasanaethau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod.

**Llywodraethu**

Llywodraethir Cymorth i Ferched Cymru gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n gyfarwyddwyr cwmni medrus sy'n sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n gyfreithiol, yn gyfrifol yn ariannol ac yn gyrru ac yn cymell ein gweledigaeth strategol a'n polisi. Mae gan Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros bob agwedd o'n gwaith. Maent yn sicrhau bod gennym systemau llywodraethu, atebolrwydd ac ariannol cadarn, ynghyd â gweithdrefnau rheoli risg sy'n dangos y mesurau rydym ni'n eu cymryd i sicrhau ein bod yn parhau'n fuddsoddiad diogel a hyfyw. Fel elusen wedi'i ffederaleiddio, mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at 12 o Ymddiriedolwyr ac rydym ni'n sicrhau bod o leiaf 4 o'r aelodau'n rhai a dynnir o'n haelodaeth graidd o wasanaethau arbenigol.

Cynorthwyir y Bwrdd i gyflawni ei rôl gan is-bwyllgorau ar lywodraethu, cyflogaeth ac AD, a chyllid a chodi arian. Mae'r is-bwyllgorau'n craffu ein hadnoddau ariannol, dynol a ffisegol a rheoli risg, a chydymffurfiaeth â chydraddoldeb, y Cynllun Iaith Gymraeg, diogelu data, amddiffyn ac agweddau eraill o'n gwaith.

Yn 2015, cychwynnodd y Bwrdd ar archwiliad o sgiliau gan ddechrau'r broses o recriwtio Ymddiriedolwyr ychwanegol i'r Bwrdd, i gynyddu capasiti ac ategu set sgiliau'r Ymddiriedolwyr presennol.

**Rheolaeth ac adnoddau**

Caiff ein gwasanaethau i'r sector eu hadeiladu ar sgiliau ac ymrwymiad ein staff. Mae ein Prif Swyddog Gweithredol hynod brofiadol, ynghyd â'i thîm o uwch reolwyr a staff ar draws Cymru'n gweithio i gyflenwi'r Cynllun Strategol hwn. Rydym ni'n ymrwymo i recriwtio a chadw gweithlu medrus ac amrywiol, ac ategir eu gwaith gan ein strategaeth dysgu a datblygu staff, sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu rhan i ddiwallu ein hamcanion. Mae pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn cael cymorth i wneud y gorau o'u potensial, a deall eu dyletswyddau a'u hymrwymiadau i gyflenwi rhagoriaeth wrth gyflenwi gwasanaeth.

Rydym ni'n croesawu ac yn gwerthfawrogi arbenigedd defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr a staff, a'n gwasanaethau i aelodau ac rydym ni'n annog ymglymiad a chyfranogiad ar draws prosesau datblygu, cyflenwi ac adolygu'r gwasanaeth. Mae ein fframwaith rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn darparu cyfeiriad hwylus ar gyfer dynodi, diffinio ac adeiladu'r galluoedd sydd eu hangen ar y sefydliad i allu dangos ei fod yn gynaliadwy. Yn y pen draw mae'n sicrhau bod ein holl wasanaethau'n hygyrch, yn ddiogel, yn atebol ac yn fesuradwy o ran yr effaith a gawn ar alluogi'r newidiadau mae cleientiaid am eu gweld yn eu bywydau.

Rhaid cael sylfaen o gymorth, rheolaeth a chyfleusterau effeithiol i sicrhau ehangder ac amrywiaeth ein gwaith, er mwyn sicrhau gwasanaethau effeithlon ac atebolrwydd i gyllidwyr. Rydym ni'n darparu'r cymorth canlynol fel sail i'n holl weithgareddau:

- Llywodraethu: rheolaeth gyffredinol, sicrwydd ansawdd, rheoli risg
- Cyllid: cyflogres, PAYE, pensiynau, anfonebu, cyllidebau, cyfrifon rheoli, taliadau grant, archwilio
- Adnoddau dynol: recriwtio, polisïau AD, cofnodion a gweithdrefnau personél, dysgu a datblygu staff
- Rheoli cyfleusterau: adeiladau, swyddfeydd a chynnal a chadw, cyfarpar swyddfa, cyfleusterau cyfarfod, iechyd a diogelwch, diogelwch, cyfleusterau lles, TGCh a chynnal a chadw caledwedd, rhwydwaith a meddalwedd.

Caiff cost y gwasanaethau hyn ei neilltuo i bob swydd a'i chodi ar y gyllideb briodol, yn dilyn y fethodoleg adennill costau arferol a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â gofynion cyfrifyddu.

Blaenoriaeth allweddol yn 2015/16 yw adolygu ein strwythur sefydliadol, cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a sicrhau ein bod yn parhau i gyflenwi gwerth ariannol a chymdeithasol i'n buddsoddwyr, ein cleientiaid a'n cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys cryfhau ein seilwaith cynorthwyo busnes i'n helpu i gyflenwi ein gwaith prosiect a'n gwasanaethau uniongyrchol i gleientiaid yn well.

**Ein haelodau**

Ein haelodaeth graidd, sydd â hawl pleidleisio, yw'r ffederasiwn o wasanaethau arbenigol cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod yn y trydydd sector ar draws Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym ni hefyd yn bwriadu ehangu ein categorïau aelodaeth i 'cefnogwyr sefydliadol' a 'cefnogwyr unigol' gan gadw ein haelodaeth graidd. Bydd yr olaf yn cynnwys sefydliadau cam-drin domestig / trais yn erbyn menywod annibynnol yn y trydydd sector neu'r rheini sydd â cham-drin domestig yn fusnes craidd, sy'n cytuno â'n cenhadaeth a'n gweledigaeth ac sy'n diwallu ein gofynion aelodaeth. Y bwriad yw y bydd yr aelodaeth graidd hon yn parhau ar gael i ddarparwyr gwasanaeth arbenigol trydydd sector yn unig.

**Ein cyllid**

Cefnogir ein gwaith gan amrywiaeth o gyllidwyr, ynghyd â'r cyllid rydym ni'n ei greu o'n gweithgareddau a'n gwasanaethau. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth barhaus a gawn gan Lywodraeth Cymru, cyrff eraill, a chefnogaeth rhoddwyr unigol. Mae dadansoddiad o ffynonellau incwm cyfredol yn dangos bod lle i amrywio ein ffynonellau cyllid, er mwyn creu sefydliad hyfyw a chynaliadwy.

Mae ein Bwrdd yn benderfynol o sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf a gwerth am arian i'n cyllidwyr, ein haelodau a goroeswyr cam-drin, eu teuluoedd a chymunedau ar draws Cymru. Byddwn yn edrych ar ddulliau mwy effeithiol ac effeithlon o gydweithio gyda gwasanaethau arbenigol, er enghraifft drwy ddatblygu partneriaethau cenedlaethol i gyd-dendro am gyllid lle bo'n briodol, a chontractio gwasanaethau allweddol yn ganolog a fyddai er budd penodol i'r gwasanaethau arbenigol llai o faint ymhlith ein haelodau.

**Ein cyllideb**

Gosodwyd ein cyllideb ar gyfer 2015/16 ar £1.5m ac rydym ni'n cyflogi 50 o bobol. Derbynnir cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi gwasanaethau craidd a chynorthwyo ein haelodau i gyflenwi gwasanaethau i oroeswyr trais a cham-drin. Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol yng Ngogledd Cymru gan gynnwys darpariaeth lloches a gwasanaethau cymorth eraill yn ogystal â thrwy Linell Gymorth Byw Heb Ofn Cymru.

Caiff ein cyfrifon eu cofnodi gyda'r Comisiwn Elusennau a gellir cael rhagor o wybodaeth o'n cyfrifon archwiliedig a'n hadroddiad blynyddol drwy eu gwefan neu drwy wefan Cymorth i Ferched Cymru.

**Aelodau Cymorth i Ferched Cymru – Gwasanaethau Arbenigol yn 2015/16:**

**Gwasanaethau Cam-drin Domestig Aberconwy**
**Cymorth i Ferched Dyffryn Aman**
**Gwasanaeth Cam-drin Domestig Môn (Gorwel/Tai Eryri)**
**Atal Y Fro**
**Cymorth i Ferched Bangor a'r Cyffiniau**
**BAWSO**
**Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alun**
**Gwasanaethau Trais Domestig CALAN**
**Cymorth i Ferched Caerdydd**
**Cymorth i Ferched Caerfyrddin**
**Cymorth i Ferched Cyfannol**
**Uned Diogelwch Cam-drin Domestig**
**Cymorth i Ferched Glyndŵr**
**Hafan Cymru**
**Cymorth i Ferched Llanelli**
**Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn**
**Cymorth i Ferched Casnewydd**
**Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych**
**Cymorth i Ferched Port Talbot**
**Cymorth i Ferched Sir Faesyfed**
**Cymorth i Ferched RCT**
**Cymru Ddiogelach**
**Cymorth i Ferched Abertawe**
**Cymorth i Ferched Gorllewin Cymru**